ipcc
comisiwn cwynion annibynnol yr heddlu

Ffurflen gwyno tu mewn

cam wrth gam

Sut i wneud cwyn yn erbyn yr heddlu

Beth yw Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu?

Mae Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) yn gwbl annibynnol ar yr heddlu. Mae'n gyfrifol am wneud yn siŵr yr ymdrinnir yn briodol â chwynion yn erbyn swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yn Lloegr a Chymru. Os ydych yn meddwl eich bod wedi cael eich trin yn wael gan yr heddlu, neu os fu swyddog o'r heddlu neu aelod o staff yr heddlu yn anfoesgar neu wedi defnyddio gormod o rym yn eich erbyn, mae gennych hawl i wneud cwyn.

Yn ychwanegol, mae'r IPCC hefyd yn ymdrin â chwynion ynghylch Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC), yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA) ac Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBA).

Nid yw'r IPCC yn gyfrifol am gwynion ynghylch polisïau heddluoedd neu ddyraniad adnoddau. Ymdrinnir â'r cwynion hyn dan system ar wahân, nad yw'n rhan o gylch gorchwyl IPCC. Gellwch ganfod rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran *Ynghylch beth allai gwyno?* isod.

Pwy sy'n medru gwneud cwyn?

Cewch wneud cwyn os ydych:

- Wedi bod yn ddioddefwr ymddygiad yr oeddech chi'n teimlo ei fod yn amhriodol gan swyddog o'r heddlu neu aelod o staff yr heddlu
- Wedi bod yn bresennol pan gafwyd digwyddiad, neu eich bod yn ddigon agos i weld neu glywed y digwyddiad, neu eich bod wedi'ch effeithio'n andwyol* gan y digwyddiad
- Yn gofidio o ganlyniad i gyfaill neu berthynas i chi gael eu trin yn wael gan yr heddlu

Efallai eich bod yn gweithredu ar ran rhywun sydd mewn unrhyw un o'r categorïau yma – er enghraifft, gallech fod yn aelod o sefydliad sydd wedi cael caniatâd ysgrifenedig gan unigolyn i wneud cwyn ar eu rhan.

** Gall cael eich effeithio'n andwyol gynnwys rhywun yn profi gofid, anghyfleustra, colled neu niwed, neu gael eich rhoi mewn peryg neu mewn risg. Gall hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, i bobl oedd yn bresennol mewn digwyddiad neu yn rhiant i blentyn neu'n gyfaill unigolyn sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol. Nid yw'n cynnwys teimlo gofid o ganlyniad i wylio'r digwyddiad ar y teledu neu ddarllen amdano yn y cyfryngau.*

Ynghylch beth allai gwyno?

Dylai pobl sy'n gweithio i wasanaeth yr heddlu ymddwyn mewn ffyrdd neilltuol. Amlinellir y disgwyliadau ynghylch ymddygiad swyddogion yr heddlu yn Safonau Ymddygiad Proffesiynol yr heddlu. Mae'r disgwyliadau hyn yn cynnwys gofynion i:

- Weithredu'n onest a chywir
- Trin aelodau'r cyhoedd a'u cydweithwyr gyda pharch
- Peidio cam-drin eu pwerau na'u hawdurdod
- Gweithredu mewn ffordd nad yw'n dod ag anfri neu danseilio hyder y cyhoedd yng ngwasanaeth yr heddlu

Os ydych chi'n teimlo nad yw rhywun sy'n gweithio i'r heddlu wedi cwrdd â'r safonau hyn, gellwch gwyno wrth yr heddlu'n uniongyrchol neu trwy'r IPCC.

Nid yw cwynion ynghylch polisïau a gweithdrefnau cyffredinol yr heddlu'n dod i mewn i gylch gorchwyl yr IPCC a dylent gael eu cyflwyno i Brif Gwnstabl yr heddlu dan sylw neu i'r Awdurdod Heddlu lleol.

Sut i wneud cwyn

- Trwy'r IPCC ar y ffôn, e-bost, post, ffacs, minicom, neu trwy lenwi ffurflen gwynion yr IPCC yng nghefn y daflen hon neu ar wefan yr IPCC.
- I unrhyw heddlu ar y ffôn, e-bost, post, ffacs, neu'n bersonol.
- Trwy gysylltu ag unrhyw swyddfa leol Cyngor ar Bopeth, Tîm Troseddwyr Ifanc, Cyngor Cydraddoldeb Hiliol, Gwasanaeth Prawf, neu'r Warden Cymdogaeth. Gallent roi gwybodaeth i chi ynghylch yr hyn i wneud nesaf.
- Gall cyfreithiwr neu AS wneud cwyn ar eich rhan.

Beth i'w ddisgwyl wrth wneud cwyn

Cofnodi eich cwyn

Nid oes gan yr IPCC y pŵer i gofnodi cwynion – gwneir hyn gan yr heddluoedd neu'r awdurdod heddlu perthnasol. Felly mae'r IPCC yn anfon allan unrhyw wybodaeth mae'n dderbyn i'r heddlu neu'r awdurdod perthnasol fel y gall penderfyniad cofnodi gael ei wneud.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd eich cwyn yn cael ei hasesu gan Adran Safonau Proffesiynol (PSD)* yr heddlu dan sylw. Y PSD fydd yn penderfynu p'un a ddylid cofnodi eich cwyn o dan y Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.

Os yw'r PSD yn penderfynu peidio cofnodi eich cwyn, efallai y gellwch apelio yn erbyn y penderfyniad hwn i'r IPCC.

** Mae gan bob heddlu PSD, sy'n gyfrifol am gwynion a materion ymddygiad sy'n cynnwys swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu o fewn eu heddlu eu hunain.*

Cydsyniad

Rydym angen eich caniatâd cyn y gallwn anfon eich cwyn ymlaen i'r heddlu. Gofynnir i chi roi eich cydsyniad i wneud hyn. Heb eich cydsyniad ni allwn anfon ymlaen fanylion am eich cwyn, sy'n golygu na ddelir â hi.

Ar ôl i'ch cwyn gael ei chofnodi

Os yw eich cwyn yn cael ei chofnodi gan y PSD, y can nesaf yw iddynt benderfynu sut orau i'w datrys. Ymdrinnir â'r mwyafrif o gwynion yn lleol gan yr heddlu dan sylw.

Datrysiad Lleol

Mae Datrysiad Lleol yn ffordd syml a hyblyg o ddatrys cwyn. Dim ond gyda'ch caniatâd chi y gellir ymdrin â'ch cwyn trwy Ddatrysiad Lleol.

Os gwelwch yn dda gweler ein llyfryn *"Dealing with your Complaint by Local Resolution"* am ragor o wybodaeth.

Ymchwiliad yr heddlu

Os nad yw eich cwyn yn addas ar gyfer Datrysiad Lleol, ymchwilir i mewn iddi. Bydd yr ymchwilydd yn dweud wrthych sut yr ymchwilir i'r gŵyn, pa gydweithrediad maent ei angen gennych chi, a sut y bydd penderfyniad yn cael ei wneud a pha weithredu a gymerir ar ddiwedd yr ymchwiliad.

Bydd y math o ymchwiliad yn dibynnu ar natur a difrifoldeb eich cwyn a'r canlyniad tebygol. Gall ymchwiliad amrywio o ymholiadau ffôn a gynhelir mewn ychydig o oriau i broses hirach a all gymryd misoedd.

Ymchwiliadau'r IPCC

Os yw eich cwyn yn fwy difrifol, efallai y caiff ei chyfeirio at yr IPCC. Rhaid i'r heddlu gyfeirio'r math canlynol o gwynion neu ddigwyddiadau i'r IPCC:

- Digwyddiadau ble bo rhywun wedi marw neu wedi ei anafu'n ddifrifol yn dilyn rhyw fath o gysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol gyda'r heddlu
- Ymosodiad difrifol gan aelod o wasanaeth yr heddlu
- Ymosodiad rhywiol difrifol gan aelod o wasanaeth yr heddlu
- Llygredd difrifol
- Troseddau, neu unrhyw ymddygiad arall a waethygir gan ymddygiad gwahaniaethol
- Unrhyw 'drosedd berthnasol', sy'n golygu trosedd y mae'r ddedfryd amdani yn cael ei gosod gan y gyfraith, neu drosedd y gall unigolyn 18 oed a throsodd (heb euogfarn flaenorol) gael ei garcharu amdani am dymor o saith mlynedd (neu y gall gael ei ddedfrydu am y cyfnod hwn oni bai am y cyfyngiadau a osodir gan adran 33 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980).

O dan yr amgylchiadau a restrir uchod, efallai y bydd yr IPCC yn penderfynu cynnal ymchwiliad a oruchwylir, a reolir, neu ymchwiliad annibynnol. Fel arall, efallai y bydd yr IPCC yn dychwelyd y mater i'r heddlu ddelio ag ef.

Ymchwiliad a oruchwylir gan yr IPCC

Dyma ymchwiliad a gynhelir gan, ac sydd dan gyfarwyddyd a rheolaeth yr heddlu, ond sy'n cael ei oruchwylio gan yr IPCC. Gellwch apelio i'r IPCC ynghylch canlyniad ymchwiliad a oruchwylir.

Ymchwiliad a reolir gan yr IPCC

Mae ymchwiliad a reolir yn cael ei gynnal gan yr heddlu, HMRC, SOCA neu UKBA, ond o dan gyfarwyddyd a rheolaeth yr IPCC. Fel arfer, mae ymchwiliadau a reolir yn digwydd pan fo'r honiad o'r fath arwyddocâd ac o bryder cyhoeddus tebygol fel bod angen goruchwyliaeth annibynnol o'r ymchwiliad.

Ymchwiliad annibynnol yr IPCC

Cynhelir ymchwiliad annibynnol gan ymchwilwyr yr IPCC ei hun. Cynhelir ymchwiliadau annibynnol i ddigwyddiadau sy'n achosi'r pryder cyhoeddus mwyaf, sydd â'r potensial mwyaf i effeithio ar gymunedau, neu sydd â goblygiadau difrifol i enw da naill ai'r gwasanaeth heddlu, HMRC, SOCA neu UKBA. Mae cyfran sylweddol o'r digwyddiadau mae'r IPCC yn ymchwilio iddynt yn ymwneud â phan fo rhywun wedi marw yn ystod neu'n dilyn cyswllt â'r heddlu neu tra yn y ddalfa.

Nid oes hawl i apelio i'r IPCC yn erbyn canlyniad ymchwiliad a reolir neu ymchwiliad annibynnol.

Dim ond i'r cwynion mwyaf difrifol mae'r IPCC yn ymchwilio. Ymchwilir yn foddhaol i'r rhan fwyaf o gwynion gan yr heddluoedd dan sylw.

Sut fyddwch chi'n cael eich hysbysu?

P'un a yw'r heddlu ynteu'r IPCC yn ymdrin â'ch cwyn, fel arfer mae gennych hawl i gael gwybod sut yr ymdrinnir â hi, pa weithredu a all ddigwydd o ganlyniad iddi, a sut y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud. Bydd yr heddlu neu'r IPCC hefyd yn cytuno â chi pa mor aml a thrwy ba ddull yr hoffech gael eich hysbysu ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd.

Beth sy'n digwydd ar ôl yr ymchwiliad i'ch cwyn?

Pan mae'r heddlu neu'r IPCC wedi ymchwilio i'ch cwyn, cewch eich hysbysu o'r hyn maent wedi penderfynu gwneud. Gallai canlyniadau posib gynnwys:

- Gall yr heddlu benderfynu gwella neu newid eu gweithdrefnau.
- Gall yr heddlu roi cyngor i'r swyddog neu berson y gwnaethoch chi gwyno amdanynt fel bod eu perfformiad yn gwella.
- Mewn achosion mwy difrifol, gall yr heddlu neu'r IPCC fynd â'ch cwyn ymhellach drwy ei rhoi i Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Y CPS fydd yn penderfynu os oes digon o wybodaeth i ddelio gyda rhywun mewn llys barn.
- Mewn rhai achosion difrifol gall yr heddlu gymryd camau camymddwyn ffurfiol yn erbyn y person y gwnaethoch gwyno amdano.
- Mewn rhai achosion, efallai nad oes digon o wybodaeth i gymryd camau dros eich cwyn. Os yw hyn yn digwydd i chi, efallai ei fod yn golygu nad oes digon o dystiolaeth ar gael.
- Mewn rhai achosion gall yr heddlu gytuno â chi fod rhywbeth wedi mynd o'i le, ond penderfynu nad yw camau pellach yn briodol.

Beth i'w wneud os nad ydych yn hapus â'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cwyn

Os ydych yn anhapus â'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cwyn, efallai y gellwch wneud apêl i'r IPCC. Byddwn yn ystyried eich apêl, ac os yn briodol, gallwn gyfarwyddo'r heddlu i newid eu penderfyniad neu i gymryd camau pellach gyda'ch cwyn.

Mae tri math gwahanol o apêl:

- Yn erbyn cwyn ddim yn cael ei chofnodi
- Yn erbyn y broses Ddatrysiad Lleol
- Yn erbyn ymchwiliad yr heddlu i'ch cwyn

Ni ellwch apelio i'r IPCC os yw'r ymchwiliad i'ch cwyn wedi cael ei reoli neu ei wneud yn annibynnol gan yr IPCC.

Am ragor o wybodaeth ynghylch apelio i'r IPCC, ymwelwch â'n gwefan – www.ipcc.gov.uk – neu galwch ni ar 08453 002 002.

torrwch yma os gwelwch yn dda

Cwyn yn erbyn yr heddlu

ipcc
comisiwn cwynion annibynnol yr heddlu

Rydym angen eich caniatâd cyn y gallwn anfon eich manylion am eich cwyn ymlaen i'r heddlu dan sylw iddynt hwy ei hystyried.
Os gwelwch yn dda sicrhewch eich bod yn llofnodi'r datganiad ar dudalen 2 y ffurflen hon.

Defnydd Swyddfa IPCC yn unig

Cwblhau'r ffurflen

Os gwelwch yn dda defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS wrth gwblhau'r ffurflen hon. Os oes unrhyw beth sy'n ei gwneud yn anodd i chi ddefnyddio'n gwasanaeth, er enghraifft, os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf neu fod gennych anabledd, os gwelwch yn dda cysylltwch â ni ar 08453 002 002. Pe hoffech gael rhywun i weithredu ar eich rhan (efallai gyfaill neu berthynas) os gwelwch yn dda rhowch fanylion amdanynt a'ch caniatâd ysgrifenedig ac anfonwch y rhain gyda'ch ffurflen.

Eich manylion (achwynydd)

Os gwelwch yn dda rhowch fanylion cyswllt i ni.

Teitl: ee. Mr

Enw cyntaf:

Cyfenw:

Dyddiad geni:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Rhif ffôn gwaith:

Rhif ffôn cartref:

Rhif ffôn symudol:

E-bost:

Manylion yr heddlu

PWY? Ynghylch pa heddlu mae eich cwyn?

Os gwelwch yn dda rhowch unrhyw fanylion sydd o bosib gennych ynghylch swyddogion yr heddlu yr hoffech **wneud cwyn yn eu herbyn**:

Enw, Gradd, ID neu unrhyw ddynodydd arall:

Enw, Gradd, ID neu unrhyw ddynodydd arall:

Os gwyddoch ym mha orsaf yr heddlu mae'r swyddog/ion yn gweithio ohoni, os gwelwch yn dda rhowch fanylion:

Manylion eich cwyn

BLE? Ble ddigwyddodd y digwyddiad/au sydd wedi arwain at eich cwyn? Os gwelwch yn dda byddwch mor fanwl â phosib, efallai yr hoffech nodi fanylion ynghylch tirnodau ayyb.

PRYD? Pryd ddigwyddodd y digwyddiad/au sydd wedi arwain at eich cwyn? Os ar fwy nag un dyddiad, os gwelwch yn dda rhowch fanylion isod ynghylch y digwyddiadau.

Dyddiad:

Amser:

neu nodwch y cyfnod amser pryd y digwyddodd y digwyddiad.

Oddi wrth:

I:

BETH? Os gwelwch yn dda disgrifiwch yr amgylchiadau a arweiniodd at i chi deimlo fod yr heddlu wedi'ch trin yn wael. Os gwelwch yn dda cynhwyswch fanylion ynghylch:

- Pwy oedd yn rhan ohono
- Beth ddywedwyd a beth wnaethpwyd
- Unrhyw bobl eraill a oedd yn dyst i'r digwyddiad
- Os fu unrhyw niwed neu anaf
- Manylion ynghylch unrhyw dystion

Ar y cam hwn, dim ond crynodeb o'ch cwyn rydym ei angen, ond gellwch ychwanegu gwybodaeth ychwanegol os oes angen. Os gwelwch yn dda defnyddiwch y bwlch a ddarperir ar dudalen olaf y ffurflen hon.

Datganiad

Rwyf yn rhoi fy nghydsyniad i chi roi'r wybodaeth a gyflwynir yn y ffurflen hon i'r awdurdod priodol (gall hyn fod un ai'r Adran Safonau Proffesiynol neu Awdurdod Heddlu'r heddlu perthnasol) i'w ystyried.

Llofnod:

Dyddiad:

Grŵp Ethnig

Mae'n rhaid i'r IPCC, fel pob corff cyhoeddus, gofnodi ethnigrwydd pobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth. Bydd gallu dynodi ethnigrwydd achwynwyr yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cyrraedd pob rhan o'r gymdeithas. Ni fydd y wybodaeth a roddir yn yr adran hon yn effeithio ar y ffordd yr ymdrinnir â'ch cwyn.

Gwyn:	Gwyn Prydeinig	☐	Gwyn Gwyddelig	☐	Unrhyw gefndir Gwyn arall	☐	
Cymysg:	Gwyn a Du Caribïaidd	☐	Gwyn a Du Affricanaidd	☐	Gwyn ac Asiaidd	☐	Unrhyw gefndir cymysg arall ☐
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:	Indiaidd	☐	Pacistanaidd	☐	Bangladeshaidd	☐	Unrhyw gefndir Asiaidd arall ☐
Du neu Ddu Prydeinig:	Caribïaidd	☐	Affricanaidd	☐	Unrhyw gefndir Du arall	☐	
Grwpiau ethnig eraill:	Tsieineaidd	☐	Unrhyw grŵp ethnig arall	☐			
Arall:	Dymuno peidio dweud	☐					

Ble i anfon y ffurflen hon

Os gwelwch yn dda dychwelwch yn ffurflen wedi'i chwblhau i'r heddlu yr ydych yn cwyno amdanynt neu anfonwch gyda'r post, ffacs neu e-bost at: IPCC, 90 High Holborn, London, WC1V 6BH
Ffacs: 020 7404 0430 Cyfeiriad e-bost: enquiries@ipcc.gsi.gov.uk

Nodiadau ychwanegol

Parhad Nodiadau ychwanegol

Cwestiynau ac Atebion

A allai drefnu cyfweliad gyda'r IPCC i wneud fy nghwyn?

Nid yw'r IPCC yn gweithredu gwasanaeth wyneb yn wyneb. Mae'r IPCC yn derbyn cwynion ar lein, trwy lythyr, e-bost neu ffôn.

Mae gen i anabledd. Pa wasanaethau all yr IPCC ddarparu i'm galluogi i wneud cwyn?

Mae'r IPCC yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth sydd wedi'i deilwrio i gwrdd ag anghenion yr achwynydd. Os oes gennych angen arbennig, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda i drafod sut gallwn eich helpu.

A allai wneud cwyn mewn iaith heblaw Saesneg?

Gallwch. Rydym hefyd yn darparu'n prif daflenni mewn gwahanol ieithoedd a fformatau. Ymwelwch â'n gwefan neu cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.

A oes terfyn amser i wneud cwyn?

Nid oes terfyn amser i wneud cwyn, ond cynghorir chi i wneud cwyn cyn gynted â phosib ar ôl y digwyddiad/au. Os oes mwy na 12 mis wedi mynd heibio rhwng y digwyddiad (neu'r digwyddiad diweddaraf) a'r dyddiad pryd y gwnaethpwyd y gŵyn, yna gall yr Adran Safonau Proffesiynol yr heddlu dan sylw wneud cais i'r IPCC hepgor eich cwyn heb edrych i mewn iddi. Gellid gwneud eithriad gan yr IPCC os gallwch ddangos rheswm da am yr oedi i wneud eich cwyn, ond dim ond os gellir eu boddhau na fydd hynny'n achosi anghyfiawnder.

Pa mor hir gymer hi i ddelio â'm cwyn?

Nid oes terfyn ar hyd ymchwiliad; fodd bynnag, mae'r IPCC yn disgwyl y dylai unrhyw ymchwiliad fod yn gymesur â natur y gŵyn.

Unwaith y bo cwyn wedi ei neilltuo i ymchwilydd, dylent allu dweud pa mor hir y bydd yr ymchwiliad i'r gŵyn yn debygol o gymryd. Oni bai bod trefniadau amgen wedi'u gwneud, dylech gael diweddariad ar gynnydd eich cwyn o leiaf bob 28 diwrnod.

A all yr IPCC fy helpu i wneud hawliad ariannol yn erbyn yr heddlu?

Na, nid yw cylch gorchwyl yr IPCC yn cynnwys hawliadau am iawndal oddi wrth yr heddlu. Os ydych eisiau dilyn unrhyw hawliadau ariannol yn erbyn yr heddlu, dylech ysgrifennu at Brif Gwnstabl yr heddlu dan sylw neu at Gyfreithiwr yr heddlu dan sylw.

Cysylltwch â'ch swyddfa leol Cyngor ar Bopeth am ragor o wybodaeth neu i geisio cyngor cyfreithiol.

A allai wneud cwyn i'r IPCC am hysbysiad cost benodedig/rhybudd/ASBO?

Gellwch gwyno gyda'r IPCC os ydych yn anhapus gydag ymddygiad swyddog neu aelod o staff yr heddlu neu os ydych yn teimlo eich bod wedi'ch trin yn wael neu'n annheg gan yr heddlu. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n golygu fod y gosb benodedig yn cael ei dileu.

Mae'r un peth yn wir os ydych wedi cael rhybudd neu ASBO. Ni all yr IPCC ddileu rhybudd yr heddlu na herio'r rhybudd ar eich rhan. Os ydych eisiau herio rhybudd yr heddlu neu gosb benodedig, neu herio ASBO dylech gysylltu â'ch swyddfa leol Cyngor ar Bopeth neu geisio cyngor cyfreithiol.

A all yr IPCC dynnu ymaith wybodaeth sy'n cael ei ddal gan y CRB?

Na. Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn asiantaeth weithredol o'r Swyddfa Gartref ac nid yw'n dod dan awdurdod yr IPCC. Dylid codi unrhyw anghydfod ynghylch y wybodaeth ar eich Datgeliad Cofnod Troseddol yn uniongyrchol gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Os ydych wedi gwneud cais am Ddatgeliad Cofnod Troseddol ond bod oedi, eto dylech gyfeirio hyn yn uniongyrchol at y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Efallai fod yr oedi oherwydd y gweithdrefnau gwirio sy'n cael eu gwneud gan yr heddlu lleol, ond eto byddai hyn yn disgyn tu allan i awdurdod yr IPCC, gan mai mater o reolaeth weithredol yw, yn hytrach na mater ymddygiad.

Os yw eich cwyn i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn dangos mai cyfrifoldeb yr heddlu lleol yw'r oedi yna gellwch gwyno gyda Phrif Gwnstabl yr heddlu dan sylw neu wrth yr Awdurdod Heddlu lleol.

Nid yw'r heddlu wedi ymchwilio'n iawn i drosedd y gwneuthum adrodd amdani, beth all yr IPCC ei wneud?

Os ydych yn anfodlon ag ymchwiliad troseddol mae'r heddlu wrthi'n cynnal ar hyn o bryd neu maent wedi gorffen ei gynnal, yna gall yr IPCC ystyried cwyn ynghylch ymddygiad unrhyw swyddog o'r heddlu neu aelod o staff yr heddlu sy'n rhan o'r ymchwiliad. Fodd bynnag, ni fyddai hyn o anghenraid yn arwain at adolygiad o'r ymchwiliad troseddol ei hun.

Nid oes gan yr IPCC unrhyw reolaeth dros y ffordd mae'r heddlu'n ymdrin â mater troseddol; ni allwn adolygu'r canlyniadau na chyfarwyddo'r heddlu i ail-ymchwilio i honiad troseddol.

Mae'r materion hyn yn ymwneud â rheolaeth weithredol yr heddlu a dylent gael eu codi gyda Phrif Gwnstabl yr heddlu dan sylw neu'r Awdurdod Heddlu lleol.

Beth allai wneud os wyf wedi adrodd ynghylch trosedd wrth yr heddlu ond eu bod yn gwrthod ei chofnodi nac ymchwilio iddi?

Os ydych yn credu fod cofnodi neu ymchwiliad trosedd wedi ei rwystro oherwydd ymddygiad unrhyw swyddog o'r heddlu neu aelodau staff yr heddlu, yna gall yr IPCC ystyried cwyn ynghylch y rhai sy'n rhan o hynny. Fodd bynnag, ni fyddai hyn o anghenraid yn arwain at gofnodi neu ymchwilio i'r drosedd yr adroddwyd amdani.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r penderfyniad o p'un a yw trosedd yr adroddwyd amdani yn teilyngu ymchwiliad yn benderfyniad gweithredol a wneir yn unol â'r canllawiau a osodwyd gan y Swyddfa Gartref. Os ydych yn credu fod yr heddlu yn methu â glynu at y canllawiau hyn, dylech ei godi gyda Phrif Gwnstabl yr heddlu dan sylw neu gyda'r Awdurdod Heddlu lleol.

ipcc
comisiwn cwynion
annibynnol
yr heddlu

Sefydliadau defnyddiol eraill

Canolfan Cyngor ar Bopeth
020 7833 2181
I ganfod manylion ynghylch eich swyddfa agosaf, ymwelwch â
www.citizensadvice.org.uk

Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu
020 7664 3096
am fanylion ynghylch eich swyddfa agosaf, ymwelwch â
www.apa.police.uk

Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau Cyfreithiol Uniongyrchol
0845 345 4345
www.clsdirect.org.uk

Swyddfa Cofnodion Troseddol
0870 90 90 811
www.crb.gov.uk

Information Commissioner's Office
08456 30 60 60
www.ico.gov.uk

Swyddfa Gartref
020 7035 4848
www.homeoffice.gov.uk

Police National Legal Database
gwybodaeth wedi'i seilio ar y we
www.askthe.police.uk

Gwasanaeth Erlyn y Goron
020 7796 8000
www.cps.gov.uk

Criminal Cases Review Commission
0121 633 1800
www.ccrc.gov.uk

Os gwelwch yn dda defnyddiwch y manylion isod i ofyn am y daflen hon mewn iaith neu fformat gwahanol.

Independent Police Complaints Commission
90 High Holborn
London
WC1V 6BH

Ffôn: 08453 002 002
Ffacs: 020 7404 0430
Minicom: 020 7404 0431
E-bost: enquiries@ipcc.gsi.gov.uk
Gwefan: www.ipcc.gov.uk

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am y sefydliad a swyddogaethau'r Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu.

Dyddiad: Rhagfyr 2008
Cyfeiriad: COM/29W